PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG

# NEWYDDION TWRISTIAETH

HYDREF 2022


→ Y GRONFA DATBLYGU CYMUNEDOL

→ NEWYDDION GAN EIN PARTNERIAID

→ CWRS LLYSGENNAD NEWYDD ARLEIN

→ BALLET Y NUTCRACKER

→ GŴYL AWYR DYWYLL

→ HYRWYDDO EICH BUSNES

→ PORTHMONA YM MANNAU BRYCHEINIOG

→ CANOLFAN WYBODAETH AC ADNODDAU CRUGHYWEL





BANNAU BRYCHEINIOG
EIN PARC CENEDLAETHOL

# Y GRONFA DATBLYGU CYMUNEDOL

## UGAIN MLYNEDD O FUDDSODDI YN Y GYMUNED LEOL

Ydy eich cymuned o fewn, neu yn gorwedd ar, ffin Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog? Oes syniad gennych am brosiect cymunedol byddech wrth eich bodd yn ei wireddu? Cymrwch gipiwch olwg ar y Gronfa Datblygu Cymunedol a weinyddir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog! Gallwch ddarllen rhagor ar ein gwefan: **https://www.bannaubrycheiniog.org/cymunedau/cynaliadwyedd-2/y-gronfa-datblygu-cynaliadwy/**

Byddai'n wych clywed gennych – hyd yn oed os mae cynnar iawn yn y broses yw hi. Os nad ydych yn gyfarwydd â cheisio am grant, peidiwch â phoeni – rydym yma i'ch helpu bob cam o'r ffordd!

Cefnogwyd canoedd o brosiectau gan y Gronfa dros yr ugain mlynedd diwethaf – yn gwella ansawdd bywyd y gymuned, helpu'r economi leol, a gwarchod yr amgylchedd leol.

## RYDYM WEDI ARIANNU:

- **Prosiectau gweithgaredd awyr agored sydd yn gwella iechyd a llesiant**
- **Gwaith cadwraeth natur o bob math**
- **Gwaith gweithredu er mwyn arbed ynni mewn adeiladau cymunedol – lleihau cost a defnydd ynni**
- **Gwasanaethau cymunedau lleol megis siopau a mannau awyr agored**
- **Gwaith treftadaeth, cadwraeth a dehongli**
- **Hyfforddiant mewn sgiliau cefn gwlad**

Eleni mae gennym raglen Arbed Ynni sy'n cynnig grantiau hyd at £5,000 er mwyn darparu dulliau i arbed ynni ac ynni adnewyddadwy mewn cyfleusterau cymunedol. Mae nifer o grwpiau wedi mynd ati'n barod i addasu eu hadeiladau gyda'r systemau gwresogi diweddaraf, goleuadau LED, inswleiddiad ychwanegol ayyb (gall amser y gwirfoddolwyr a chyfraniadau o fath arall gael eu cynnwys fel arian cyfatebol):

Os hoffech sgwrsio am eich syniad, cysylltwch â Barbara neu Ben – anfonwch air ar **sdf@beacons-npa.gov.uk** neu ffoniwch 07973 781479



grantiau hyd at **£5,000**

# NEWYDDION GAN EIN PARTNERIAID



## CARETREF Y GIG

Pan gyhoeddodd Aneurin Bevan ei fod yn mynd i Dredegareiddio'r Deyrnas Unedig, wnaeth neb ddychmygu y byddai'n creu sefydliad fyddai mor bwysig i'n calonnau ni fel cenedl, y Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol. Glöwr oedd Bevan i ddechrau, yna aeth yn gynghorydd lleol, ac yn ddiweddarach yn Aelod Seneddol. Ond ei rôl fel Gweinidog Iechyd oedd cyfnod mwyaf dylanwadol ei yrfa pan ddefnyddiodd Gymdeithas Cymorth Meddygol Tredegar fel glaslun i'r GIG. Yn ei dref enedigol, Tredegar, gall ymwelwyr ymchwilio mewn i hanes neu enedigaeth y GIG drwy lwybrau cerdded a llwybrau gyrru, gwaith celf, ffilmiau a chanolfanau treftadaeth.

Yn yr ystafell gyngor yn Nhŷ Bedwellte, lle dysgodd Bevan y grefft o wleidydda am y tro cyntaf, dengys ffilm sy'n archwilio sut y bu iddo oresgyn ei nam ar leferydd. I ddysgu rhagor am y sefydliad a'i hysbrydolodd i greu'r GIG, gallwch ymweld ag Amgueddfa Hanes Leol Tredegar a Chanolfan Dreftadaeth Cymdeithas Cymorth Meddygol Tredegar sydd wedi eu lleoli yn The Circle. Hefyd yn y Circle ceir pedair tarian gron sy'n archwilio bywyd Bevan ac ar y llethrau uwchben y dref mae'r Meini Coffa lle byddai Bevan yn pregethu i'w etholwyr ac i'r byd. Mae Llwybr Aneurin Bevan yn daith gerdded ac yn daith yrru mewn car sy'n ymweld â mannau pwysig yn hanes Bevan tra bod Dilyn Olion Traed Neu yn daith ar hyd un o'i hoff lechweddi a'i orffwysfan olaf **www.blaenau-gwent.gov.uk/cy/ymwelwyr/llwybrau-lleol**




## TŶ A PHARC BEDWELLTE

Mae Bedwellte, cyn-gartref teyrnach yr Hearnfeistr Homfray, yn ystâd rhaglywiaeth gofrestredig sydd wedi ei amgylchynu gan ardd hanesyddol a sefydlwyd yn y 19eg ganrif. Mae cysylltiad agos rhwng Tŷ a Pharc Bedwellte, a hanes cynnar Cymru Ddiwydiannol. Parhaodd perthnasedd y cyswllt hwn pan roddwyd y tŷ a'r parc i bobl Tredegar gyda therfyn y gwaith haearn. O ganlyniad daeth yn ganolbwynt i'r mudiad llafur yng Nghymru, a thrwy gydol Prydain. Mae'n siŵr mai'r cysylltiad enwocaf gyda Thŷ a Pharc Bedwellte yw Aneurin Bevan, sy'n cael ei gydnabod fel sylfaenydd y Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol.

Mae gan y parc goedardd, gerddi ffurfiol, ogofdy, gardd gegin, pyllau sgydiau a'r darn mwyaf o lo yn y byd! Yn y tŷ mae'r ystafell gyngor wreiddiol lle cychwynnodd Bevan ei yrfa wleidyddol a lle gellir gwylio ffilm sy'n dangos siwrnai anhygoel ei areithyddiaeth a galeri o luniau hanes lleol. Mae caffi yno hefyd, Orchid House, sy'n gweini lluniaeth twym ac oer a the'r prynhawn arbennig.

**www.bedwelltyhouseandpark.co.uk**

NEWYDDION GAN EIN PARTNERIAID

# MAE'R HYDREF WEDI DOD I BARCIAU RHONDDA CYNON TAF!

Wrth i liwiau gogoneddus y tymor ddod i'r amlwg beth am fachu'r cyfle i gael ychydig o awyr iach wrth anturio ar hyd llwybrau cerdded Rhondda Cynon Taf?

Mae llawer o ddewis. Ym Mharc Gwledig Cwm Dâr mae cannoedd o erwau i'w harchwilio. Gallwch fynd ar grwydr ar gopaon y mynyddoedd neu ddilyn llwybrau ger y llynnoedd sy'n ddigon hawdd i gadeiriau olwyn neu i gadair wthio plentyn. Dewch â'ch beic er mwyn cael tro ym Mharc Beicio Teulu Grarychedd – mae cwrs beiciau balans ar gael i'r rhai bach yn ogystal â pharc antur a pharcio am ddim.

Bwydwch yr hwyaid a'r gwyddau ar lyn Parc Cwm Dâr neu cerddwch drwy barc hanesyddol Bronwydd yn y Porth sy'n llawn coed a phlanhigion o bob lliw a llun.

Parc Gwledig Barry Sidings yw'r lle perffaith i fwynhau yn yr awyr agored gyda'i lynnoedd a'I feysydd chwarae. Dewiswch rhwng taith gylch neu ewch lan i'r mynydd a'r goedwig. Yng nghaffi Barri Sidings mae dewis gwych o brydiau bwyd a diodydd twym yn cynnwys siocled poeth, latte pwmpen â sbeis a llawer mwy.

Er mwyn dod o hyd i ragor o lefydd i anturio ewch i'r wefan ganlynol **www.rctcbc.gov.uk/CY/Tourism/Home.aspx**



# CWRS LLYSGENNAD NEWYDD ARLEIN

www.ambassador.wales/cy/ambassador-courses/brecon-beacons-ambassador-course

Lansiwyd y Cwrs Llysgennad Efydd arlein ar y 12fed Ebrill. Ar ddechrau mis Hydref roedd 93 person wedi cwblhau'r cwrs ac wedi pasio'r wobr efydd. Mae hwn yn cynnwys:

- CYFLWYNIAD I BARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG
- NAWS AM LE BANNAU BRYCHEINIOG
- POBL O'R GORFFENNOL

Byddwn yn lansio'r wobr Llysgennad Arian ddiwedd mis Hydref. Bydd y cwrs yn cynnwys yr unedau canlynol:

- GEOBARC
- AWYR DYWYLL
- ECOLEG

Mae ambell i Lysgennad newydd wedi mynychu ein cyrsiau hyfforddi:

**NATUR BANNAU BRYCHEINIOG,** cyflwyniad gwych gan Kevin Walker, gyda thaith gerdded i ddilyn dan arweinyddiaeth Alan Bowring ein Swyddog Geobarc.

**SYNIADAU AM FRECWAST GYMREIG A GWERS ENGHREIFFTIOL,** wedi ei harwain gan Nerys Howell a goginiodd brydiau hawdd wedi eu hysbrydoli gan Gymru yn cynnwys:

- FFA PATAGONIA
- BYRGERS BRECWAST BARA LAWR

I weld ryseitiau Cymreig diddorol erdrychwch ar y wefan hon:

www.howelfood.co.uk/cookbook



## I ddod ar Dachwedd 23ain .

### DOSBARTH MEISTR CAWS CYMREIG A GWIN

gyda Nerys Howell and Deiniol ap Dafydd.

CYMRU.
CYRCHFAN BWYD
WALES.
A FOOD DESTINATION



Dosbarth meistr caws a gwin

**Dydd Mercher 23 Tachwedd 10.30am-1.20pm**
**Neuadd Henderson, Penpentre, Tal-y-bont ar Wysg, LD3 7YQ**
**Digwyddiad AM DDIM -** nifer cyfyngedig o lefydd sydd ar gael felly mae'n rhaid archebu lle

**Gall caws a gwin fod yn bartneriaeth Gymreig berffaith, os ydych yn gwybod ble i edrych**

Mae'r cogydd teledu Nerys Howell a Deiniol ap Dafydd o Blas ar Fwyd wedi creu bwrdd caws 'Parciau Cenedlaethol Cymru' ac wedi dewis detholiad o winoedd Cymreig a diodydd eraill o Gymru i gyd-fynd â'r caws. Yn y dosbarth meistr byddant yn rhannu straeon am flas, prosesau a thraddodiadau ac awgrymiadau ar sut i baru cawsiau unigryw gyda diodydd Cymreig orau.

**Beth sy'n gwneud gwin Cymreig mor unigryw, yn wir sut mae diffinio 'gwin Cymreig'?**

Dewch i ddarganfod sut i flasu gwin fel blaswr proffesiynol a sut i baru gwin a diodydd eraill gyda gwahanol fathau o gaws yn hyderus.

Mae gwin a chaws wedi mynd law yn llaw ers canrifoedd, ond gyda'r opsiynau cynyddol ar gyfer gwinoedd a chawsiau heddiw, gall penderfynu sut i'w paru fod yn heriol. Felly, gallwch roi'r gorau i ddyfalu sut i baru, dyma ganllaw defnyddiol i roi man cychwyn i chi.

**Mae'n rhaid archebu lle**

I gadw lle cysylltwch â Carol Williams ar carol.williams@beacons-npa.gov.uk

# Ballet
# Y NUTCRACKER

Mae  Ballet Aberhonddu yn falch o ddychwelyd i Theatr Brycheiniog y Nadolig hwn, gyda phum perfformiad o'r Nutcracker o ddydd Gwener Rhagfyr 16eg hyd ddydd Sul Rhagfyr 18fed, yn cynnwys dau berfformiad yn y prynhawn. Ein tymor cyntaf yn 2019 a gefnogwyd gan grant caredig oddi wrth Gronfa Datblygiad Cynaliadwy Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, oedd y cynhyrchiad maint llawn cyntaf o'r ballet enwog i'w chreu yng Nghymru, gyda cherddorfa fyw. Gwerthodd pob perfformiad allan gyda chynulleidfaoedd brwdfrydig, gan olygu i ni orfod agor yr ymarfer gwisg, a werthodd allan hefyd!

Yn dilyn y clo mawr oherwydd y pandemig COVID yn 2020, a chynhyrchiad COVID-ddiogel o "Christmas Treats from the Nutcracker" yn 2021 ( a gefnogwyd yn hael eto gan y Gronfa Ddatblygu Gynaliadwy), mae Ballet Aberhonddu yn gyffrous i ddychwelyd gyda'r cynhyrchiad maint llawn eto, yng nghwmni Cerddorfa Siambr Cymru yn chwarae yn fyw. Mae Ballet Aberhonddu yn parhau gyda'i nod o ddod a ballet o safon uchel i ganolbarth Cymru, gyda chriw o 80 o berfformwyr ar y llwyfan, yn cynnwys dawnswyr ballet proffesiynol, y rhan fwyaf ohonynt wedi ei lleoli yng Nghymru, rhai a hyfforddodd yn Aberhonddu, myfyrwyr ballet ac aelodau o'r gymuned mewn rolau action. Mae'r ymarferiadau wedi dechrau ac mae aelodau'r gymuned sydd ddim yn dawnsio yn hynod gyffrous. Rydym yn ddiolchgar iawn i artistiaid lleol a chrefftwyr am roi eu hamser i greu gwisgoedd, propiau a'r golygfeydd.

Mae perfformiadau eleni yn cynnwys staff o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog mewn rhannau sydd ddim yn dawnsio! Mae'r clyweliadau côr ar gyfer "Corws y Plu Eira" yn Act 1 yn digwydd ddydd Sul Hydref 23ain; cysylltwch gyda **lesley@breconfestivalballet.com** os hoffech gymryd rhan yn y clyweliad ar gyfer y côr.

Mae Ballet Aberhonddu yn elusen cofrestredig, a sefydlwyd yn wreiddiol I gyflwyno cynhyrchiad newydd sbon o ballet enwog Tchaikovsky, The Nutcracker yn Theatr Brycheiniog dros y Nadolig. Nid yn unig oedd hwn y cynhyrchiad proffesiynol llawn maint cyntaf yng Nghymru ond roedd hefyd y tro cyntaf i Theatr Brycheiniog gyflwyno ballet llawn maint gyda cherddorfa fyw.

Perfformir y Nutcracker I gynulleidfaoedd byw dros y byd bob Nadolig am ei fod yn rhan o ddathliad Nadolig pobl; a nawr gallwch wneud hyn yn Aberhonddu. Mae'r ballet yn gyfuniad o gerddoriaeth hyfryd  Tchaikovsky sy'n cynnwys alawon cyfarwydd, a stori hudol am barti Nadolig, taith trwy goedwig Nadolig a gwledd o ddawnsfeydd yng Ngwlad y Losin gyda'r Tylwyth Teg Eirin Siwgr yn teyrnasu.

Crëwyd y cynhyrchiad gan ein Cyfarwyddwr Artistig Katy Sinnadurai BEM, dawnswraig ballet a choreograffydd sy'n byw yn Aberhonddu. Mae'r prif rannau a'r corps de ballet yn ddawnswyr ballet proffesiynol, gyda myfyrwyr ballet yn ychwanegu a rhannau plant a chymeriadau gan fyfyrwyr dawns leol ac actorion o'r gymuned leol. Mae corws y Plu eira yn gôr lleol, ac mae Cerddorfa Siambr Cymru yn chwarae'n fyw.

Mae'r project uchelgeisiol hwn yn bosib trwy grantiau ac ymgyrch godi arian er mwyn talu am gostau'r cynhyrchiad cyffrous. Roedd y perfformiadau cyntaf yn llwyddiant ysgubol, a bellach mae Ballet Aberhonddu wedi llogi Theatr Brycheiniog at y dyfodol er mwyn ei wneud yn ballet Nadolig blynyddol Aberhonddu. Yn 2020 dyfarnwyd y BEM yn Rhestr Blwyddyn Newydd y Frenhines i Katy  Sinnadurai am ei gwasanaeth i addysg Ddawns, hyfforddiant a pherfformiadau.

Mae gan y cwmni uchelgais i berfformio a chreu mwy o ballet yn y blynyddoedd nesaf.

Am fwy o wybodaeth, ewch at **www.breconfestivalballet.com**

Er mwyn archebu tocynnau at gynhyrchiad eleni, ewch at **www.brycheiniog.co.uk/ên**, sgroliwch lawr a chlicio i dudalen 3..





BANNAU BRYCHEINIOG

# GŴYL AWYR DYWYLL

GAN PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG




Mynychodd dros 800 o ymwelwyr ein Gŵyl Awyr Dywyll mewn-person cyntaf erioed ar ddiwedd Medi yng Nghanolfan Groeso'r Parc Cenedlaethol.

Cynhaliwyd nifer o weithgareddau yn cynnwys taith gerdded ystlumod gyda Grace Dooley o Just Mammals ar hyd Prom Aberhonddu, padlfyrddio ar hyd camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu, gwylio'r sêr yn y gwyll gyda Martin Williams o Outdoor Adventures ac eistedd nôl i wrando ar Daniel Morden â'i Storïau Serennog.

Ymhyfrydwyd y gynulleidfa gan Norman Lowe a ddatgelodd brydferthwch gwyfynod a'u rôl allweddol mewn bioamrywiaeth.

Difyrrwyd y plant gan dîm addysg y Parc Cenedlaethol wrth iddynt greu hetiau ystlumod, bathodynnau a chymryd rhan mewn cwis symudol o amgylch y lle yn chwilio am gliwiau.

Esboniodd Nick Busby pam ein bod wedi ein gwneud o serlwch, a daeth â'i gasgliad o awyrfeini gydag ef. Roedd rhai enghreifftiau o'i gasgliad yn 4.7 biliwn mlwydd oed.

Bu digon o gyfle i fwynhau ein planetariwm newydd diolch i'r sioeau a drefnwyd yno gan Gymdeithas Seryddol Bryn Buga.

Daeth Cymdeithas Seryddol Caerdydd â'u hysbienddrych solar er mwyn i ymwelwyr allu edrych drwyddo a gweld fflachiadau'n dod o'r haul.

Daeth dros 150 o ymwelwyr nos Sadwrn i fwynhau noson o sylwi ar y sêr, daeth rhai â'u binocwlars a'i sbienddrychau eu hunain tra helpwyd eraill gan gymdeithasau Seryddol Caerdydd a Bryn Buga a oedd hefyd wedi dod â chyflewad o finocwlars a sbienddrychau fel bod pawb yn gallu gweld y sêr a'r planedau'n agosach na'r arfer.

Os hoffech gynnig gweithgaredd ar gyfer Gwyl Awyr Dywyll blwyddyn nesaf, cysylltwch â Carol Williams.




**Mae sawl cymdeithas dwristiaeth wedi ei nodi yn yr erthygl a all eich helpu i hyrwyddo eich busnes. Mae hefyd Ganllaw Groeso ble gall busnesau hysbysebu heb gostau ymuno, dim ond tal hysbysebu.**

**Dewiswch chi!**

## TWRISTIAETH CANOLBARTH CYMRU

Mae TCC yn sefydliad busnes, **sydd ddim yn gwneud elw**, sydd wedi ymrwymo i gynnal gweithgareddau sy'n cefnogi a datblygu diwydiant twristiaeth cryf a chynaliadwy. Yn ogystal â darparu cefnogaeth uniongyrchol i fusnesau unigol, grwpiau twristiaeth gymunedol a chymdeithasau, trwy aelodaeth, rydym hefyd yn cynnal ymgyrchoedd marchnata a hyrwyddo er mwyn hyrwyddo'r lleoliad i'r farchnad darged.

Trwy ymuno gyda TCC byddwch yn dod yn rhan o sefydliad aelodaeth twristiaeth fwyaf yng Ngorllewin, De a Chanolbarth Cymru gyda mynediad at gyfoeth o fanteision aelodaeth a chyfleoedd marchnata er mwyn denu mwy o ymwelwyr.

Mae aelodaeth ar agor i unrhyw fusnes, unigolyn, grŵp cymunedol, cymdeithas dwristiaeth neu grŵp gyda diddordeb yn economi ymwelwyr Gorllewin, De a Chanolbarth Cymru. Mae aelodaeth gysylltiol ar gael i fusnesau yng Ngogledd Cymru.

Ymunwch gyda ni er mwyn derbyn sylw eang ar ein llwyfannau, yn cynnwys ein gwefanau llwyddianus, **Show Me Wales** a **Visit Mid Wales**. Ar ein sianeli, rydym yn denu dros 2 filiwn o ddefnyddwyr unigryw a miloedd o gyfeiriadau i wefannau ein haelodau yn flynyddol.

## CYMDEITHAS DWRISTIAID Y FENNI A'R CYLCH

Cymdeithas Dwristiaid Y Fenni a'r Cylch (ADTA) yw sefydliad marchnata twristiaid hynaf y dref. Trwy ymuno gyda ni, byddwch yn ymuno gyda grŵp o berchnogion busnes sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo'r Fenni fel cyrchfan i dwristiaid. Credwn trwy ddenu twristiaid i'r Fenni a'r Cylch y bydd holl fusnesau'r dref yn elwa.

Rydym yn annog busnesau eraill fel siopau, tai bwyta, caffis a thafarndai i ymuno gyda ni a darparwyr gweithgareddau a lletyai. Mae aelodaeth ar agor i bawb yn nhref y Fenni a'r Cylch.

### Manteision ymuno gyda ADTA

Am dal aelodaeth flynyddol resymol iawn bydd cyfle i chi rwydweithio gyda darparwyr twristiaid lleol eraill a busnesau yn ein cyfarfodydd, cael eich gweld yn ein llawlyfr ymwelwyr blynyddol sy'n cael ei ddosbarthu'n eang yn yr ardal, a hyrwyddo eich busnes trwy ein cyfryngau cymdeithasol, Facebook, Twitter a Pinterest.

Byddwch hefyd yn cael eich rhestru ar ein gwefan, sy'n derbyn miloedd o ymwelwyr pob mis. Felly, peidiwch oedi, galwch ni a byddwn yn hapus i roi gwybod i chi am gostau aelodaeth. Edrychwn ymlaen At glywed gennych!

### Sut i ymuno gyda ADTA

Mae ymuno yn hawdd, ffoniwch ni ar 01873 853271 neu defnyddiwch y ffurflen gysylltu ar y wefan.

## GRŴP TWRISTIAETH CRUGHYWEL A'R MYNYDDOEDD DU

Hyrwyddwch eich busnes ar **www.visitcrickhowell.wales** trwy ymuno gyda Grŵp Twristiaeth Crughywel a'r Mynyddoedd Du (CBMT) - casgliad o fusnesau a sefydliadau sy'n gweithio I hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy er mwyn denu mwy o ymwelwyr, hyrwyddo digwyddiadau a dathlu ein hardal brydferth a'r hyn sydd ganddi i'w gynnig a hefyd gynyddu busnesau annibynnol.

Mae ardal ddaearyddol CBMT yn fras yn cwmpasu pum cyngor Crughywel, Dyffryn Grwyni, Llangatwg, Llangynidr a Chwmdu er bod croeso i aelodau o du hwnt i'r ardal hon.



**Amcanion CBMT yw:**

- Cynyddu nifer yr ymwelwyr i'r ardal
- Cynyddu'r amser a'r arian mae ymwelwyr yn gwario a threulio yn yr ardal.
- Ymestyn y tymor ymwelwyr trwy hyrwyddo digwyddiadau a chynigion arbennig tu hwnt i'r 'tymor ymwelwyr'
- Cyflawnir yr amcanion hyn trwy gydweithrediad rhwng aelodau a gweithgareddau hyrwyddo ar y cyd. Mae CBMT yn gweithio yn agos gyda chymdeithasau twristiaeth eraill a grwpiau yn y Parc Cenedlaethol, Croeso Cymru, Cynghorau Lleol a Llywodraeth Cymru.

Mae CRiC yn rhedeg y ganolfan wybodaeth ymwelwyr yng Nghrughywel a gyda CBMT wedi gweithio i gynhyrchu a chreu Llawlyfr Ymwelwyr Crughywel a'r Mynyddoedd Du, cwisiau antur i deuluoedd, rhestr busnesau ar visitcrickhowell.wales, calendr ar-lein yn cefnogi digwyddiadau lleol. Mae CBMT a CRiC hefyd yn trefnu a hyrwyddo Gŵyl Gerdded Crughywel a phenwythnos Stiwdios Agored Crughywel a'r Cylch.

**www.visitcrickhowell.wales**

## TWRISTIAETH BANNAU BRYCHEINIOG

Mae pris aelodaeth yn amrywio gyda math o fusnes.

Rhestrir yma ein costau aelodaeth bresennol.

Os ydych yn aelod o grŵp twristiaeth leol, gallech fod yn gymwys i ostyngiad 10% o aelodaeth TBB.

Ymunwch gyda Chynllun Aelodau TBB heddiw, a byddwch yn elwa o fanteision yn syth.

Mae pris aelodaeth yn amrywio gyda math o fusnes.

Wrth ymuno gyda TBB, mae pob aelod yn cytuno a'r gwerthoedd canlynol:

**Gweithio'n galetach... gyda'n gilydd i gynnig profiadau nodedig i'n hymwelwyr**

**Gofalu mwy... am ein hymwelwyr a'r amgylchedd sy'n eu denu**

**Anelu ymhellach... am ein dyhead am leoliad cynaliadwy**

**Rhannu mwy... o'n harbenigedd a gwybodaeth er lles pawb**

**Mae gennym ein Cod Ymddygiad yr ydym yn disgwyl i'n haelodau ei ddilyn**

**Mae TBB yn ymfalchïo yn adnabod ein haelodau a helpu ble bynnag y gallwn. Darllenwch y Tystebau gan ein haelodau i wybod sut gallwn ni eich helpu chi.**

Mae'n hawdd ymuno gyda TBB. Lawr lwythwch y ffurflen gais a rhestru busnes ac e-bostio at
**info@breconbeaconstourism.co.uk**
**www.breconbeaconstourism.org/join/**

## LLAWLYFR CROESO BANNAU BRYCHEINIOG

**www.thebreconbeacons.wales**

Mae Touchdown Design wedi cymryd cyfrifoldeb llwyr am greu a dosbarthu Llawlyfr Croeso Bannau Brycheiniog. Yn flaenorol ar y cyd gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Rydym yn edrych ymlaen at wneud 2023 yn flwyddyn arbennig i fusnesau. Mae'r Llawlyfr Croeso yn mynd law yn llaw gyda'r wefan, ac mae gan bob un sy'n hysbysebu dolenni cyswllt am un pris.

Os yn hysbysebwr blaenorol neu'n hysbysebwr newydd, mae croeso i chi roi hysbyseb yn llawlyfr Croeso 2023.

**www.thebreconbeacons.wales/advertising-form**

**www.thebreconbeacons.wales/advertising-tariff**

Os hoffech fwy o wybodaeth cysylltwch gydag Alan ar 07805 836222 neu Neil ar 07973 711523 neu e-bostiwch **info@thebreconbeacons.wales**

# PORTHMONA YM MANNAU BRYCHEINIOG

Ar ddechrau mis Hydref cafwyd sgwrs a thaith tywys arbennig o ddiddorol gan Mark Davies am y porthmyn o Fannau Brycheiniog. Roedd yn rhan o ddigwyddiad busnes twristiaeth a gynhaliwyd ym Mharc Gwledig Craig-y-nos.

Rhai blynyddoedd yn ôl mynychodd Mark gwrs Llysgennad Diwylliant Cymru, ac un o weithgareddau'r cwrs oedd ymchwilio elfen o ddiwylliant Cymru a'i gyflwyno i weddill y grŵp. Penderfynodd Mark ymchwilio'r porthmyn ac o ganlyniad daeth yn frwdfrydig dros ddarganfod rhagor am yr agwedd anhysbys hon o'n diwylliant.

Isod ceir darn bach o gyflwyniad Mark, ond gellir darllen rhagor fan hyn:

**https://atlanticculturescape.eu/droving-in-the-brecon-beacons-national-park/**

Porthmona yw'r broses hynafol o yrru gwartheg i'r farchnad ar droed. Mae gyrru da byw (gwartheg, defaid, moch, tyrcwn a gwyddau) o fryniau Cymru i farchnadoedd Lloegr yn broses sydd wedi mynd ymlaen ers cannoedd, os nad miloedd, o flynyddoedd. Y Normaniaid oedd yn gyfrifol am sefydlu marchnadoedd cig a gwartheg pwysig, a'r enwocaf o'r rhain oedd Smithfield yn Llundain, marchnad a sefydlwyd dros 800 mlynedd yn ôl. Yn wir, roedd Smithfield yn gyrchfan mor bwysig a phroffidiol i ffermwyr a phorthmyn Cymru fel bod ffermwyr Cymru hyd yn oed heddiw yn dal i ddefnyddio'r term "Smithfield" i olygu marchnad wartheg. Roedd da byw Cymreig a fagwyd ar laswellt mynyddig bras yn wydn a chryf. Bu iddynt oddef y daith hir yn dda a thewychu'n rhwydd ar borfeydd gwyrddlas Lloegr, felly roeddent yn ddelfrydol ar gyfer porthmona ac yn gwneud prisiau da yn y farchnad. Daeth rhai porthmyn yn gyfoethog iawn.

Mae'r llun yn dangos busnes twristiaeth ar un o lwybrau'r porthyn.



# CANOLFAN WYBODAETH AC ADNODDAU CRUGHYWEL (CRIC)

Yn ogystal â bod yn atyniad i ymwelwyr, galeri celf ac yn gaffi mae CRiC hefyd yn cefnogi busnesau lleol drwy roi gwybod i ymwelwyr am yr hyn sydd i'w wneud yn yr ardal a chynnig syniadau am le gallant fwyta neu siopa. Mae'r ganolfan hefyd yn cynnig gwasanaethau swyddfa a chyfleusterau cyfarfod hawdd eu cyrraedd i fusesau bach a sefydliadau lleol. Gellir defnyddio'r ystafell gyfarfod ar gyfer hyfforddiant neu gyfarfodydd a gellir gosod yr ystafell yn ôl gofynion y cyfarfod. Gall 16 person eistedd yn gyfforddus gyda'r ystafell wedi ei threfnu ar ffurf cynhadledd / cyfarfod bwrdd neu, gyda'r ystafell wedi ei threfnu ar ffurf theatr, mae lle i 30 o bobl i eistedd.

Mae'n bleser gan CRiC roi gwybod i fusnesau twristiaeth, grwpiau a sefydliadau bod yr Ystafell Bwyllgor nawr wedi ei darparu gyda sgrîn ddigidol a'r cyfleusterau cynadleddu fideo diweddaraf, diolch i grant gan Arwain o'u Cronfa Lleoliad Cymunedol. Bydd y nodweddion newydd, gwell hyn yn gymorth wrth gynnal hyfforddiant, cyrsiau, dosbarthiadau a chyfarfodydd hybrid drwy Zoom.

Dywedodd Jan Morgan, Rheolwraig y Ganolfan "rydym wrth ein bodd i allu cynnig adnoddau newydd a fydd yn gymorth i'r sawl sydd wedi gorfod addasu i ffyrdd newydd o weithio ac sydd wedi gorfod cynyddu eu defnydd o dechnoleg digidol er mwyn gallu ymwneud yn llawn gyda'r bobl sy'n cymryd rhan."

Yn ogystal â llungopïo, sganio a gwasanaethau swyddfa eraill sydd ar gael yn CRiC, mae'r ganolfan hefyd yn cefnogi nifer o artistiaid a chyflenwyr Cymreig a lleol er mwyn rhoi gwir flas o Gymru. Mae arddangosfa'r Hydref sydd i'w weld yn Oriel CRiC tan ddechrau Tachwedd yn un hudolus sy'n ysbrydoli ac mae'r casgliad o fapiau, teithlyfrau a llyfrau am yr ardal leol yn tyfu fwyfwy ac yn hynod o boblogaidd.

Er mwyn holi am gyfleusterau cyfarfod CRiC a'u argaeledd, neu er mwyn gofyn cwestiwn am unrhyw un o wasanaethau eraill CRiC, cysylltwch â Jan ar 01873 813666 neu e-bostiwch **jan@visitcrickhowell.wales**



# CYSYLLTIADAU


**Carol Williams**
Swyddog Ardal Twf Twristiaeth
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog,
Ffordd Cambrian, Aberhonddu, Powys, LD3 7HP.
07854 997559
carol.williams@beacons-npa.gov.uk

**Alan Bowring**
Swyddog Geoparc y Fforest Fawr
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog,
Ffordd Cambrian, Aberhonddu, Powys, LD3 7HP.
07854 997557
alan.bowing@beacons-npa.gov.uk

**James Lawrence**
Swyddog Rheolaeth Ymwelwyr
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog,
Ffordd Cambrian, Aberhonddu, Powys, LD3 7HP.
07854 997558
james.lawrence@beacons-npa.gov.uk

**Laura Thomas**
Cyfarwyddwr Gweithredol,
Twristiaeth Bannau Brycheiniog
07983 635640
laura@breconbeaconstourism.co.uk


CYSYLLTIADAU